Cofnodion Cyfarfod 8fed o Fai 2012 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am oddeutu 8:30 o'r gloch.

1.0 YN BRESENNOL

Ken Brown
Lena Ashley
Siân Gwenllïan
Pat Jones
George Smith
Daniel Williams
Hywel Vaughan Jones
Iestyn Harris
Gareth Griffiths

2.0 GAIR O GROESO A SYLWADAU AGORIADOL

2.1 Yn dilyn y cyfarfod blynyddol agorodd y Cadeirydd y cyfarfod misol gan gyfeirio bod problemau wedi codi ar Lon Las, y Maes Parcio a bod ganddo gyfarfod y Dydd Llun canlynol gyda Adrian Williams Swyddog Priffyrdd y Cyngor Sir a bod Holiadur wedi ei ddosbarthu i'r pentrefwyr.

Ymddiheuriadau Eluned Owen

3.0 DATGAN DIDDORDEB

3.1 Hywel Vaughan Jones yn datgan diddordeb ar eitem 8.7.

4.0 COFNODION

4.1 Cyflwynwyd Cofnodion 10 Ebrill 2012.

4.2 Gwnaethpwyd newid i bwynt 11.6 a 18.2.

Cynigiodd y Cynghorydd Daniel Williams, ac eiliwyd y Cynghorydd Lena Ashley i dderbyn y cofnodion gan gynnwys yr uchod fel rhai cywir, llofnodwyd y cofnodion.

5.0 MATERION YN CODI

5.1 Newid noson Cyfarfod y Cyngor wedi ei drafod yn y cyfarfod blynyddol.

5.2 Cynnal potiau blodau'r Cloc wedi ei drafod yn y cyfarfod blynyddol.

5.3 Cyfarfod Mr Horrocks heb ei drefnu hyd yma nid oedd brys i wneud hynny.

5.4 Gwefan Cymuned y Felinheli - wedi ei drafod yn y cyfarfod blynyddol; nifer yr "hits" mis diwethaf oedd 54,219.

5.5 Dywedodd Siân Gwenllïan ei bod wedi rhoi cais am Swyddogion Cymorth Cyntaf ar gyfer Taith y Fflam Olympaidd ar y wefan.

Heather Lynne Jones

5.6 Biniau Ailgylchu - dim gwybodaeth wedi ei dderbyn oddi wrth Steffan Jones na Huw

Y Clerc i lythyru Steffan Jones ynglŷn â'r mater er mwyn gael diweddaru'r sefyllfa.

6.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD

6.1 Adroddodd y Cynghorydd Iestyn Harris ar y sefyllfa bresenol ynghlŷn â'r taliad olaf i'r adeiladwr. Mae swm o £9,381.52 (yn cynnwys TAW) yn ddyledus yn dilyn rhyddhau y Dystysgrif Cwblhau gan y Pensaer

6.2 Mae gan y Pwyllgor Rheoli £3,000 felly bydd rhaid i'r Pwyllgor gwneud cais i'r Cyngor am gymorth i dalu y gweddill sydd yn ddyledus.

6.3 Awgrymwyd fod aelodau o'r Pwyllgor Reoli yn cyfarfod a'r Pensaer i drafod y gor-wariant cyn cyflwyno cais am gymorth arianol gan y Cyngor.

Penderfynwyd bod Is-bwyllgor y Pwyllgor Rheoli yn cyfarfod a'r Pensaer i drafod y gor-wariant ac yn adrodd yn ol i'r Cyngor.

6.4 Yn ogystal â'r uchod roedd gwaith cynnal angen ei wneud ar y neuadd; drws gwaelod wedi ei sigo; sawl golau ddim yn gweithio yn y toiledau, golau tu allan i'r neuadd angen ei drwsio, unrianal a toilet roll holder yn dod oddi wrth y wal.

Y Clerc i gysylltu â Trydanwr Lleol ynglŷn â'r goleuadau. Y Cadeirydd i gysylltu ac Adeiladwr Lleol ar gyfer y gwaith arall.

6.5 Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod cwmni o ffwrdd yn ymholi ynglŷn â chael cyfarfodydd yn y neuadd a bod hwy angen manylion nifer cynulleidfa'r neuadd a.y.b.

Y Clerc i anfon manylion niferoedd y neuadd at y Cynghorydd Daniel Williams.

6.6 Dywedodd Y Cadeirydd bod Shirley wedi ei phenodi fel Gofalwraig y Neuadd yn llawn amser. Dywedodd hefyd bod defnydd y neuadd dros yr haf yn isel iawn a bod angen marchnata'r neuadd i wneud defnydd lawn ohoni.

7.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.

7.1 Cyflwynodd y Swyddog Ariannol, Wynne Barton y gwariant a'r adroddiad ariannol.

Cynigwyd fel rhai cywir gan Daniel Williams; eiliwyd gan Pat Jones.

8.0 GOHEBIAETH

Heather Lynne Jones

8.1 Cyflwynwyd yr ohebiaeth i'r Cyngor gan y Clerc, gwybodaeth oedd mwyafrif o'r ohebiaeth; cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Gorchymyn Cyngor Gwynedd Digwyddiadau Arbennig (Taith Gyfnewid y Fflam Olympaidd Llundain 2012) Rheolaeth Trafnidiaeth Dros Dro) 2012. Roedd Ken Brown am gael mwy o fanylion ynglŷn â'r bwriad o gau ffordd o'r Gylchfan y Faenol i Nant Garth, cymerodd y dogfennau oddi wrth y Clerc.

8.2 Llythyr Cyngor Cefn Gwlad - Gan y bod y safle ger Gwylan uchaf yn "safle Bywyd Gwyllt" roedd Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd am gynnal cyfarfod safle gyda'r Cynghorydd Sir i ystyried y mater yn bellach.

8.3 Cais Cynllunio 12/0144/20LL Codi 54 o Dai ar dir ger Drws y Coed – gweler adroddiad y Cynghorydd Sir.

8.4 Materion Priffyrdd – angen pwyso ar yr adran briffyrdd ar gyfer cael gweithred ar y materion.

Y Clerc i anfon at Meirion Williams Priffyrdd Ardal Arfon i bwyso bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan.

9.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC

9.1 Dim byd yw adrodd; ond bod gwaith ar y gweill.

10.0 CAIS CYNLLUNIO

10.1 Roedd cais cynllunio wedi dod i lawr wedi i'r agenda a phapurau'r cyfarfod gael eu hanfon, er hynny roedd angen sylwadau cyn fyddai'r Cyngor yn Cyfarfod eto.

10.2 Ystyriwyd cais rhif C12/0543/20/LL i godi Porth yn Rhif 9 Ffordd Glyder.

10.3 Ni chafwyd gwrthwynebiad.

11.0 NEUADD YR EGLWYS

11.1 Eglurodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan y sefyllfa ynglyn a'r Neuadd yr Eglwys a bod trafodaethau yn parhaui.

12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT

12.1 Mae carreg bedd o fewn y fynwent yn rhydd, mae un pris wedi ei dderbyn gan y clerc ond dywedodd Wynne Baron ei fod am drio dod o hyd i deulu Tyddyn oer, Bethel yn gyntaf ar gyfer gwneud y garreg yn ddiogel; os na fydd yn dod o hyd i'r teulu yna byddai yn cael pris arall ar gyfer gwneud y gwaith.

13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH

13.1 Dywedodd y Cadeirydd bod wal gerrig ger y maes parcio tu ôl i'r tai fyny at Arfonia angen ei thrwsio. Tebyg yw bod y difrod wedi ei wneud gan blant oedd wedi cael eu hanfon oddi wrth yr ardal gan y trigolion.

Penderfynwyd bod y Cadeirydd yn gofyn i Islwyn os byddai yn gallu ymgymryd â'r gwaith walio.

13.2 Nid yw cyfarfod a Mr Horrocks wedi ei drefnu hyd yma, nid oes ganddo brys mawr i wneud hyn ar hyn o bryd oherwydd pwysa gwaith arall.

13.3 Dywedodd y cadeirydd bod bolardiau oedd ar y maes parcio wedi torri ar hyn o bryd roedd "cones" ar y safle ond yn anffodus bod un wedi diflannu.

13.4 Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod ganddo "cone" a fyddai yn gallu ei osod ar y safle.

13.5 Mater arall oedd wedi dod i sylw'r Cadeirydd oedd bod ceir wedi ei adael yn y Maes Parcio heb dreth cerbyd; roedd y trigolion yn bryderus ynglŷn â'r sefyllfa. Dywedodd y Cadeirydd bod y Cyngor yn delio a'r mater drwy gael gair i gall a'r perchnogion.

13.6 Mae cloeau giatiau'r Lon Las bellach ddim yno.

Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Marc Balaam ynglŷn â'r mater.

14.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU

14.1 Dywedodd y Cynghorydd George Smith bod Llwybr Arfordir Cymru wedi ei agor Dydd Sadwrn diwethaf.

14.2 Tybiodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan bod angen gwneud Arolwg Blynyddol o'r llwybrau. Dywedodd bod angen gwneud mwy o'r llwybrau a bod Grŵp Cynaliadwy yn Llanfairfechan wedi cael cymorth ariannol gan fusnesau lleol i wneud taflen i hyrwyddo defnydd o lwybrau Llanfairfechan a bod y daflen yn cael eu hadolygu bod rhyw dair blynedd. Mae 4 llwybr ar hyn o bryd yn cael eu harwyddo ar y wefan gymunedol ac mae angen rhoi my arni.

14.3 Dywedodd Ken Brown bod cynllun wedi ei grybwyll peth yn amser yn ôl i greu taflen mewn partneriaeth a Chynghorau Cymuned Llanberis, Llanddeiniolen a'r Felinheli ond doedd dim datblygiad wedi bod ar y fenter.

Penderfynwyd bod y Clerc yn gwneud ymholiadau a Dafydd Einion Jones ynglŷn â'r mater.

14.4 Roedd y gysgodfan bws ger Cerrig yr Afon bellach wedi cael ei adnewyddu diolch i'r Swyddog Ariannol. Er hynny dywedodd George Smith efallai dylai gwneud rhywbeth i rwystro i'r "Perspex" gael ei ddwyn eto, efallai bod modd gneud rhyw "etching" arno.

14.5 Dywedodd Pat Jones bod Rhian wedi bod yn paentio ar themâu'r Môr yn y Felin Sgwrsio ac efallai byddai hi yn gallu gwneud rhywbeth ar yr un themâu ar y Perspex.

Cynghorydd Siân Gwenllïan i wneud cysylltiad i drafod y mater ymhellach.

15.0 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

15.1 **ETHOLIAD CYNGOR SIR** –

15.1.1 Adroddodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan bod 75 sedd ar Gyngor Gwynedd ac ar hyn o bryd bod 74 Cynghorydd wedi eu hethol, mae un etholiad i'w chwblhau yn ardal Bryncrug ger Tywyn. Mae 37 cynghorydd Plaid Cymru a 37 Cynghorydd o bleidiau eraill.

15.1.2 Mae trafodaethau yn bodoli ar hyn o bryd rhwng y pleidiau er mwyn trio symud ymlaen i greu Cabinet.

15.1.3 Mae'r sustem Gabinet yn newydd lle mae 10 sedd, eisoes roedd sustem Fwrdd lle'r oedd pob plaid gyda chanran o seddi. Mae sustem Gabinet yn dynodi mai un blaid neu glymblaid syn rheoli. Mae amser diddorol o'm Blaenau.

15.2 **PARTNERIAETH Y FELINHELI**

15.2.1 Mae partneriaeth y Felinheli wedi ei sefydlu yn gorff bellach a byddent yn mynd ati yn y dyfodol agos i ddadansoddi'r holiaduron. Diolch i bawb fuodd yn helpu.

15.3 CLWB IEUENCTID

15.3.1 Dywedodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan ei bod wedi derbyn cais ysgrifenedig gan aelodau o Clwb Ieuenctid y Pentref yn gofyn a oedd modd i'r Clwb gael ei ymestyn dros yr Haf. Dywedodd ei bod yn cefnogi eu cais a gobeithir y byddai'r Cyngor hefyd yn dangos cefnogaeth.

Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Wasanaeth Ieuenctid y Sir i gefnogi y cais.

15.4 **SBWRIEL GER GELLI GYFFWRDD**

15.4.1 Y diweddara ar y sefyllfa yw mai sbwriel carthu'r buarth yw'r sbwriel a bod yr Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â bod y ffarmwr wedi cael cyngor sut i'w wared.

15.5 **CAIS CYNLLUNIO ADEILADU 54 O DAI GER DRWS Y COED**

15.5.1 Mae cydnabyddiaeth bod yr arolwg traffig heb fod yn drylwyr a bod angen i'r arolwg gael i ymestyn i gymryd y ffyrdd i gyd o gwmpas yr ardal a bod angen i'r gwaith fod yn gynhwysfawr.

15.5.2 Mae'r mater hefyd yn derbyn sylw Alun Ffred Jones ynglŷn â gweddau penodol. Bellach mae proffil y mater wedi codi yn fawr.

15.5.3 Mae diddordeb hefyd wedi codi ynglŷn â Tai Cymdeithasol.

15.6 **GRANT FFLAM OLYMPAIDD**

15.6.1 Mae trefniant bellach mewn lle bod y Swyddog ariannol yn derbyn yr anfonebau ar gyfer iddynt gael eu talu.

15.6.2 Mae banneri wedi eu harchebu ac mae'r gwaith o ddylunio a chreu posteri yn gyfrifoldeb i Carys a'r ysgol.

15.7 **PCSO**

15.7.1 Bellach mae Ian Rooksby wrth ei waith a da o beth fyddai ei wahodd i gyfarfod o'r Cyngor.

Y Clerc i wahodd PSCO Ian Rooksby i gyfarfod nesaf o'r Cyngor.

15.8 SBWRIEL

15.8.1 Mae sbwriel wedi ymddangos ar y ffordd o Tan y Maes i'r Bonc; tebygolrwydd yw mai o'r gefnffordd mae'r sbwriel wedi dod.

Y Clerc i ddod a'r mater i sylw unai'r Asiantaeth Cefnffyrdd neu'r Adran Briffyrdd pwy bynnag sydd yn gyfrifol.

16.0 UNRHYW FATER ARALL

16.1 Dywedodd Ken bod gwaith wedi cael ei wneud o flaen Londis a bod yr arwydd Dim Llwytho wedi ei rhoi yn ôl yn y lleoliad anghywir, bydd yn dod a'r mater gerbron Adrian Williams Dydd Llun. Cynigiodd Siân Gwenllïan i ddod i gyfarfod a Ken Brown a Adrian Williams gan ei bod yn rhydd yr amser hwnnw.

16.2 Gadawodd y Clerc y Cyfarfod gan fod yr aelodau am drafod costau'r Clerc.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:45 o'r gloch yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....